# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **24 Mai 2017.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Joe Hale | Adran Etholiadol: | St Thomas |
|---|---|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Ynghyd â'm cydweithiwr ward, cynhaliom gymorthfeydd rheolaidd drwy gydol y flwyddyn yn ogystal â nifer o gyfarfodydd cyhoeddus am "Bynciau Llosg". Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn trafod materion mewn perthynas â cheisiadau cynllunio a Thai Amlfeddiannaeth (HMOs).
Gwnaethom gefnogi'r preswylwyr yn ystod y broses Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ac anfonom ymateb cymunedol.
Roedd gennym rôl arweiniol wrth gynrychioli'r ward mewn sawl cyfarfod cynllunio.
Yn ogystal, gwnaethom barhau i gefnogi Parc Polly, Clwb Bowlio Parc Jersey a Phartneriaeth Gymunedol Parc Grenfell, St Thomas a Phort Tennant (GSP), Canolfan Gymunedol Ashlands a grwpiau eraill. Yn fy marn i, fel Cynghorydd lleol, rwyf wedi sicrhau fy mod wedi rhoi'r preswylwyr wrth wraidd pob peth rwyf wedi'i wneud.

**Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr is-adran etholiadol.

Dangosir isod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgorau:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cynghori’r Cabinet ar Wasanaethau Corfforaethol | 7 | / | 10 |
| Council | 9 | / | 16 |
| Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd | 2 | / | 3 |
| Cyd-bwyllgor Ymgynghorol | 3 | / | 5 |
| Pwyllgor Cynghori’r Cabinet ar Ataliaeth a Diwygio | 1 | / | 6 |
| Pwyllgor Safonau | 2 | / | 4 |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe | 1 | / | 2 |
| **Cyfanswm** | **25** | **/** | **46** |

**Scrutiny Meetings:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Panel Ymchwilio Diwylliant Corfforaethol | 0 | / | 1 |
| Gweithgor Tai Amlfeddiannaeth | 2 | / | 2 |
| Panel Perfformiad Craffu Gwella Gwasanaethau a Chyllid | 5 | / | 15 |
| Gweithgor Craffu Trechu Tlodi | 3 | / | 12 |
| **Cyfanswm** | **10** | **/** | **30** |

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Yn fy marn i rwyf wedi bod yn bwynt cyswllt cyntaf, mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, ar gyfer nifer o faterion gwahanol, o breswylwyr hŷn yn gofyn am gyngor ar lenwi ffurflenni'r cyngor i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y ward.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Mae Parc Polly'n parhau i fod yn llwyddiant mawr diolch i bartneriaeth waith dda gyda phreswylwyr, cynghorwyr a swyddogion y cyngor. Gobeithiwn y bydd grŵp hunanreoli Ashlands a Chlwb Bowlio Parc Jersey yr un mor llwyddiannus.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Rwyf wedi cymryd rhan mewn sawl cwrs dysgu a datblygu, gan gynnwys:

07/11/2016 - Diogelu

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Roeddwn yn parhau i gefnogi'r gymuned trwy gymryd rhan mewn cynifer o ddigwyddiadau cymunedol â phosib megis ffeiriau eglwysi, cyngherddau Nadolig a digwyddiadau ysgolion yn Ysgol St Thomas ac Ysgol Danygraig.
Rwyf hefyd yn llywodraethwr yn y ddwy ysgol ac yn mwynhau'r rôl yn fawr.
Roeddwn yn hyrwyddo Cynllun y Morlyn Llanw'n gyson gan y gallai hyn arwain at fuddsoddiad a chyfleoedd mawr i Eastside.
Ar yr ochr negyddol mae demograffig cymdeithasol y ward yn newid, ac erbyn hyn mae pobl ifanc yn cael eu geni a'u magu yn Eastside na fydd ganddynt gyfle i fod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain yn y ward gan fod mwy a mwy o eiddo'n cael eu prynu gan asiantiaid gosod ac mae datblygwyr yn newid tai teuluoedd traddodiadol yn HMOs.
Mae'n bwysig ein bod yn rhoi'r CCA yn ei le er mwyn amddiffyn ein cymunedau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
Er bydd y prifysgolion yn cynnig cyfleoedd a fydd, gobeithio'n, ddyheadau ein plant a'n hwyrion, bydd heriau'n dod law yn llaw â'r newid hwn i Eastside ac mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn cael y gorau ohono ar gyfer ein preswylwyr.
Byddai'n braf gweld buddsoddiad gwirioneddol gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) ar ochr arall Ffordd Fabian.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 10 Hydref 2017 |